**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth, Gorffennaf 26ain 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

<u>Ymddiheuriadau</u>: Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Cynghorydd Dilwyn O Roberts

<u>Presennol</u>: Gwydion A Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H Edwards, Gwyn Williams, D Gwynfor Davies a'r Clerc.
Aelod o'r cyhoedd : Mrs G Vaughan

56.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

56.2 Croesawyd MR DARREN MILLAR, AELOD CYNULLIAD i'r cyfarfod a diolchodd yntau am y cyfle i ddod i ymweld â'r Cyngor Cymuned a'i fod yn falch o fedru cadw cysylltiad a diolchodd i aelodau'r Cyngor am eu gwaith dros yr ardal. Cyfeiriodd at nifer o wahanol faterion fel a ganlyn:
Adran Mamolaeth Ysbyty Glan Clwyd – yn falch eu bod wedi llwyddo i gadw yr Adran Mamolaeth fydd yn ail agos at Ysbyty Arrow Park (£18m o fuddsoddiad i Ysbyty Glan Clwyd).
Band eang cyflym – nid oedd wedi derbyn ateb gan BT ond cyfeiriodd at 4% o'r boblogaeth sy'n anodd ei chyrraedd gyda band eang. Cyfeiriodd at gynllun 'Access Broadband Cymru' lle mae cymhorthdal ar gael os yw'r lefel band eang yn isel iawn.
Archwilwyr o'r tu allan i Gymru – esboniodd bod y gwaith archwilio llyfrau'r cynghorau cymuned a thref wedi ei roi allan i dendr a bod cwmni o Loegr wedi ei ennill.
Dyddiad Sioe Frenhinol Cymru – esboniodd mai awdurdodau addysg lleol sy'n penderfynu pryd fydd gwyliau ysgol.
Bwyd o Gymru ar fwydlen ysgolion – rheolau Ewrop oedd yn weithredol.
Côd Ymddygiad – pam fod y pennawd 'Diddordeb' wedi newid i 'Buddiannau'. Roedd Mr Millar yn dal i aros am ateb i'r ymholiad.
Adroddiad ar 'Tawelfan' Ward Ablett, Ysbyty Glan Clwyd – bydd yn cael ei gyflwyno yn mis Mawrth 2017.
Pont ger Cartref y Ficerdy – roedd Mr Millar am roi pwysau ar y Cyngor Sir i drwsio'r bont rhag blaen gan ei bod yn fater o frys o ran diogelwch teithio ar hyd ffordd gul pentref Pandy Tudur.
'Brexit' – roedd Mr Millar yn cefnogi gadael yr Undeb Ewropeaidd a chredai y byddai Sir Conwy yn cael mwy o fudd, y byddai rheolau 'caffaeliad' yn newid ac o fantais i Gymru, ac y dylai ffermwyr gael gwell sylw gan y bydd materion amaethyddol yn cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru (Fformiwla Barnett).
Gwastraff Niwclear yn cael ei gludo ar drenau – Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gyfrifol am hyn.
Diolchwyd i Mr Millar am ddod atom.

56.3 COFNODION
56.3.1 Edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Mehefin 29ain 2016 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu derbyn fel cofnod cywir.
56.3.2 Derbyniwyd gofnodion cyfarfod o Gronfa Bro Cernyw Mehefin 29ain 2016 fel cofnod cywir.

56.4 MATERION YN CODI O'R COFNODION
56.4.1 SEDD WAG AR Y CYNGOR – esboniodd y Clerc bod arwydd wedi ei osod yn y pentrefi ac ar y wefan yn nodi bod sedd wag am gynghorydd yn Ward Gwytherin ac y bydd etholiad yn cael ei gynnal petai deg o bobl sydd wedi cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal leol yn cysylltu â Chyngor B S Conwy i ofyn am etholiad. Bydd y rhybudd yn ei le hyd Awst 1af.
56.4.2 COFRESTRU MYNWENTYDD – derbyniwyd ateb i'n cais ynglŷn a chofrestru y mynwentydd. Mae Mynwent Garnedd wedi ei chofrestru ond nid oes tystiolaeth bod mynwentydd Llangernyw a Gwytherin. Angen ei roi ar Agenda y cyfarfod nesaf a'r Clerc i wneud ymholiadau.

56.5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
56.5.1 CYNLLUN PARTNERIAETH BAG HALEN – nid oedd ymateb wedi dod yn dilyn gofyn a fyddai Cyngor B S Conwy yn talu am yswiriant y cynllun.
56.5.2 HEN FAINC Y CYNGOR YM MHANDY TUDUR – rhoddwyd caniatâd i bwyllgor Menter Pandy Tudur symud y fainc a chynigiodd y Cadeirydd Gwydion Jones dorri mieri o gwmpas y fainc newydd.
56.5.3 PONTYDD YR ARDAL – PENDERFYNWYD i ofyn i Mr Dyfed Rowlands, Adran Ffyrdd beth oedd y cynllun gweithredu ynglŷn a'r pontydd.
56.5.4 ALLT BRON GELLI – PENDERFYNWYD i gytuno a'r cais i'w gwneud yn un ffordd yn unig.
56.5.5 ARWYDD 30 MYA GER HAFANNEDD – PENDERFYNWYD i ofyn iddynt newid hwn i 10 MYA gan fod y ffordd mor gul.
56.5.6 TORRI OCHRAU FFYRDD – PENDERFYNWYD i dynnu sylw'r Adran Ffyrdd nad yw'r toriad diwethaf wedi bod yn foddhaol a bod angen strimio a thocio gwrych o gwmpas arwyddion ffyrdd yn yr ardal ynghyd â'u glanhau.
56.5.7 BANCIAU AILGYLCHU – PENDERFYNWYD i holi beth oedd y bwriad i'w wneud gyda'r rhain yn y dyfodol.

56.6 MATERION CYNLLUNIO
56.6.1 Cais Rhif 0/42937 Codi eiddo newydd i ddisodli un presennol yn 19 Parc Aelas, Llangernyw gan Grŵp Cynefin – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
56.6.2 Cais Rhif 0/42963 (cais diwygiedig) Codi annedd newydd yn Dolau, Llangernyw gan Mr Alun Williams – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
56.6.3 Cais Rhif 0/42978 Codi annedd (cynllun diwygiedig i'r un a gymeradwywyd dan Gôd Rhif 0/33178) (Rhannol Ôl-weithredol) yn 1 Cae'r Ysgol, Llangernyw gan G & EW Davies – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

56.7 CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG – PENDERFYNWYD i aros nes y cawn ymateb drwy law Mr Darren Millar ynglŷn a newid y pennawd 'diddordeb' i 'fuddiant' ac i roi'r eitem ar Agenda y cyfarfod nesaf.

56.8 CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL BRO CERNYW – cafwyd cais i ddewis cynrychiolydd am y pedair blynedd nesaf a PHENDERFYNWYD yn unfrydol i ethol Mr Gwyn Williams i aros ymlaen am y cyfnod.

56.9 CRONFA BRO CERNYW
56.9.1 Derbyniwyd cais gan Capel y Cwm Llangernyw am gyfraniad at waith ar yr adeiladau. PENDERFYNWYD yn unfrydol cyfrannu £2000 tuag at y prosiect ar yr amod ein bod yn cael golwg ar Adroddiad Strwythurol gan arbenigwr ar y capel. Hefyd penderfynwyd anfon adroddiad a baratowyd gan Gyngor Conwy i swyddogion y capel yn rhestru nifer o ffynonellau grant sydd ar gael.

56.9.2 ADOLYGU FFURFLEN GAIS Y GRONFA – PENDERFYNWYD i ychwanegu at y ffurflen yr 'edrychir yn fwy ffafriol ar geisiadau lle caiff arian cyfatebol ei ddenu'. Diolch i Elen Edwards am ei chymorth gyda'r ffurflen.

56.10 TOILEDAU LLANGERNYW – PENDERFYNWYD i gysylltu â Howell Jones Cyfreithiwr i ofyn iddynt ein cynrychioli wrth drosglwyddo'r toiledau ac i ofyn am Mr Hywel Davies yn swyddfa Abergele. Hefyd i gysylltu â Steve Teale (Conwy) ynglŷn a hyn a diolch iddo am gytuno i gyfrannu tuag at y costau cyfreithiol.

56.11 ARWYDD BROWN TWRISTIAETH – PENDERFYNWYD i greu pwyllgor bach i drafod hyn gyda swyddogion o Gonwy – enwyd Elen Edwards, Diane Roberts, y Cadeirydd a'r Clerc a chafwyd caniatâd i fwrw mlaen â'r trefniadau.

56.12 CYNHADLEDD A PHWYLLGOR BLYNYDDOL UN LLAIS – cytunodd Gwydion Jones i'n cynrychioli yn y Gynhadledd yn Llanelwedd ar ddydd Sadwrn Hydref 1af. Cost y Gynhadledd fyddai £80.

56.13 CYSTADLEUAETH COEDEN Y FLWYDDYN – cafwyd cais i ni enwebu Coeden Ywen Llangernyw ar y cyd ag Eglwys San Digain a bod angen nodi sut fyddem yn gwario'r grant os yn ennill y gystadleuaeth. Awgrymwyd: tacluso o gwmpas, marchnata, cyhoeddi defnyddiau cyhoeddus, lluosogi'r goeden. Bydd y Clerc yn cyfarfod y Parch Sally Rogers i drafod.

56.14 DATBLYGU HEN YSGOL LLANGERNYW – cafwyd cais gan rheithor Eglwys San Digain am enwau o'r pentref fel cynrychiolwyr ar bwyllgor datblygu'r Hen Ysgol. PENDERFYNWYD i ofyn am fwy o wybodaeth am y cynllun.

56.15 SGWRS Y SIR – cyfeiriwyd at gyfarfod yn fuan yn Llanrwst ynglŷn a praesept a chyfle i bawb fod yn rhan o Sgwrs y Sir.

56.16 DIFFIBRILYDD – hysbyswyd y noson hyfforddiant fydd ar nos Iau, Awst 11eg yng Nghanolfan Bro Cernyw. PENDERFYNWYD y bydd y Cyngor Cymuned yn talu am osod y diffibrilydd ar wal y Ganolfan.

56.17 GWARIANT AC INCWM Y CYNGOR EBRILL I MEHEFIN – cyflwynodd y Clerc y daflen i'r Cyngor.

56.18 MATERION LLEOL
56.18.1 Soniodd Elen Edwards am y syniad o gael man 'chargio car' o fewn cynllun Conwy Cynhaliol.
56.18.2 Angen rhoi cawelli o gerrig i ddal ochr y ffordd ger Fron Goch yn dilyn damwain a fu yno.
56.18.3 Angen torri o amgylch arwyddion yn enwedig arwyddion 30 mya.
56.18.4 Cyfeiriwyd at rhywun yn defnyddio arhosfan bws fel toiled yn y pentref.
56.18.5 Angen anfon manylion cais Mast Pen y Fron at Luned Evans, Un Llais Cymru.
56.18.6 To porch Siop y Llan wedi ei ailwneud yn uwch na'r gwreiddiol – angen cysylltu â'r Adran Cadwraeth.
56.18.7 Baw cŵn yn Glan Collen a ger Capel Bethabara.
56.18.8 Carreg fedd Robert Roberts angen sylw – cynigiodd Diane Roberts fynd i'w gweld.

56.18.9 Angen am arwyddion rhybudd bod plant yn chwarae ym Mhandy Tudur yn arbennig gan fod traffig ychwanegol yn teithio tua Chartref yr Hen Ficerdy. PENDERFYNWYD i'r Clerc ofalu am arwyddion a gwario dim mwy na £100.
56.18.10 Angen peth sylw i barc chwarae Pandy Tudur – ffens wedi torri, tyllau yn y ddaear ac angen ffens uwch i rwystro peli.

56.19 BILIAU

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru (cofrestru i'r Gynhadledd) | £80 |
| D Evans (4ydd toriad Mynwentydd) | £360 |
| Computer World (trwsio cyfrifiadur) | £40 |
| Cyflog a Chostau Clerc | £892.69 |
| Cyllid y Wlad (T.W.E.) | £6.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 11 o'r gloch yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ..G A Jones.....................* *Dyddiad ...28/9/16..........................*

Community Council Meeting was held on Tuesday, July 26th 2016 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Cllr Dilwyn O Roberts

Present: Gwydion A Jones (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H. Edwards, Gwyn Williams, D Gwynfor Davies & Clerk.
Member of the public: Mrs G Vaughan

56.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

56.2 MR DARREN MILLAR ASSEMBLY MEMBER was welcomed to the meeting and he was thankful for the opportunity to come and visit the Community Council and is pleased to be able to maintain contact and thanked Council members for their work for the area . He referred to a number of different issues as follows:
Glan Clwyd Hospital Maternity Unit - is pleased that they managed to keep the maternity unit which will a close second to Arrow Park Hospital (£ 18m investment to Glan Clwyd Hospital).
Fast broadband - he had not received a reply from BT but referred to 4% of the population that is difficult to reach with broadband. He referred to the 'Access Broadband Wales' where subsidy is available if the level of broadband is very low.
Auditors from outside Wales - explained that the audit of books of parish councils has been put out to tender and that a company from England was successful.
Dates of Royal Welsh Show - explained that local education authorities set school holidays.
Welsh food on the school menus - European rules were implemented.
Code of Conduct - why the heading 'Interest' has changed to 'Benefits'. Mr Millar is still waiting for an answer to the query.
Report on 'Tawelfan' Ablett Ward, Ysbyty Glan Clwyd - will be presented in March 2017.

Bridge near Old Vicarage - Mr Millar will put pressure on County Council to repair the bridge as soon as possible as there is an urgent safety matter of cars traveling along a narrow road through village of Pandy Tudur.
'Brexit' - Mr Millar supports leaving the European Union and believed that Conwy will get more benefits, the precurement rules would change and benefit Wales, and that farmers should be better of fas agricultural issues will be devolved to the Welsh Government (Barnett formula).
Nuclear waste transported by rail - the UK Government is responsible for this.
Mr. Millar was thanked for attending the meeting.

56.3 MINUTES
56.3.1 Minutes of 29th June 2016 were looked at and RESOLVED unanimously accepted as a correct record.
56.3.2 received the minutes of the Cronfa Bro Cernyw on June 29th 2016 as a correct record.

56.4 MATTERS ARISING
56.4.1 VACANT SEAT ON THE COUNCIL - The Clerk explained that the notice has been put up in the villages and on the website states that there is a vacancy for councilor in Gwytherin Ward and the election will be held if ten people registered as local government electors for the local area will contact Conwy CB Council to seek election. The warning will be in place until August 1.
56.4.2 REGISTRATION OF CEMETERIES - received reply to our request regarding the registration of the cemeteries. Garnedd Cemetery has been registered but there is no evidence that Llangernyw and Gwytherin cemeteries are registered with the Land Registry. Needs to be put on the agenda of the next meeting and the Clerk to make inquiries.

56.5 ROAD AND ENVIRONMENT MATTERS
56.5.1 PARTNERSHIP PLAN SALT BAGS - no response had come after asking whether Conwy C B Council will pay for the insurance plan.
56.5.2 OLD COUNCIL BENCH IN PANDY TUDUR – permission was given to the Menter Pandy Tudur to move the bench and the Chair Gwydion Jones offered to cut brambles around the new seat.
56.5.3 BRIDGES IN THE AREA - RESOLVED to ask Mr Dyfed Rowlands, what was the Department of Roads and Bridges action plan.
56.5.4 BRON GELLI HILL - RESOLVED to support the application to make it just one way.
56.5.5 30 MPH SIGN NEAR HAFANNEDD - RESOLVED to ask them to change this to 10 MPH as the road is so narrow.
56.5.6 ROAD SIDE GRASS CUTTING - RESOLVED to inform the Highways Department that the last cut has not been satisfactory and strimming and pruning a hedge around road signs in the area along with their cleaning was needed.
56.5.7 RECYCLING BANKS - RESOLVED to ask what was intended to do with these in the future.

56.6 PLANNING MATTERS
56.6.1 Application No. 0/42937 Erection of a new property to replace the existing one at 19 Park Aelas, Llangernyw by Grŵp Cynefin - RESOLVED unanimously to support the application.
56.6.2 Application No. 0/42963 (amended) Building a new dwelling in Dolau, Llangernyw by Mr Alun Williams - RESOLVED unanimously to support the application.
56.6.3 Application No. 0/42978 Erection of dwelling (amended scheme to that approved under Code No. 0/33178) (Part Retrospective) at 1 Cae’r Ysgol, Llangernyw by G & EW Davies - was unanimously RESOLVED support the application.

56.7 REVISED CODE OF CONDUCT - RESOLVED to wait until we get a response from Mr Millar re changing the heading of 'interest' to 'benefit' and to put an item on the agenda of the next meeting.

56.8 BOARD OF GOVERNORS YSGOL BRO CERNYW - a request to select a representative for the next four years and RESOLVED unanimously to elect Mr. Gwyn Williams to stay on for the period.

56.9 BRO CERNYW FUND
56.9.1 A request was received from Capel y Cwm, Llangernyw for a contribution to the work on the buildings. RESOLVED unanimously to contribute £ 2000 towards the project on condition that we get a view of the Structural report from a specialist on the chapel. Also decided to send a report prepared by Conwy Council officering a list of available grant sources.
56.9.2 REVIEW APPLICATION FORM - RESOLVED to supplement the form 'looked more favorably on applications where a match is drawn'. Thanks to Ellen Edwards for her help with the form.

56.10 LLANGERNYW TOILETS - RESOLVED to contact Howell Jones Socilitor to ask them to represent us in transferring the toilets and to ask for Mr Hywel Davies Abergele office. In addition to contact Steve Teale (Conwy) regarding this and thank him for agreeing to contribute to the legal costs.

56.11 BROWN TOURISM SIGN - RESOLVED to form a small committee to discuss this with officials from Conwy - namely Elen Edwards, Diane Roberts, Chair and Clerk and received permission to proceed as scheduled.

56.12 A G M & CONFERENCE ONE VOICE - Gwydion Jones agreed to represent us at the Conference in Builth Wells on Saturday October 1st. The Conference would cost £ 80.

56.13 TREE OF THE YEAR COMPETITION - a request to nominate Llangernyw Yew Tree in conjunction with the Church of San Digain and requires identifying how we would spend the grant if it wins the competition. Suggested: tidying around, marketing, publishing materials public, propagating the tree. The Clerk will meet to discuss with the Rev. Sally Rogers.

56.14 DEVELOP OLD SCHOOL LLANGERNYW - a request by the rector of the Church of San Digain for names of people from the village to be on the development committee. RESOLVED to ask for more information about the scheme.

56.15 THE COUNTY CONVERSATION - reference was made to a meeting soon in Llanrwst re the precept and an opportunity for everyone to be part of the County conversation .

56.16 DEFIBRILLATOR – trainin night arranged for Thursday, August 11th at Canolfan Bro Cernyw. RESOLVED that the Community Council will pay for the installation of the defibrillator on the Canolfan wall.

56.17 INCOME & EXPENDITURE OF COUNCIL APRIL TO JUNE - The Clerk presented the sheet to the Council.

56.18 LOCAL MATTERS
56.18.1 Elen Edwards talked about the idea of having a place of 'charge cars' within the Conwy plan.
56.18.2 Crates of stones needed to hold the roadside near Fron Goch following an accident.
56.18.3 Need cut around signs especially 30 mph signs.
56.18.4 Referred to someone using the bus stop as a toilet in the village.
56.18.5 Need to send details re Pen Fron mast to Luned Evans, One Voice Wales.
56.18.6 The Shop porch roof has been replaced and is higher than the original - need to contact the Conservation Department.
56.18.7 Dog dirt in Glan Collen and near Bethabara Chapel.
56.18.8 Robert Roberts's gravestone needs attention - Diane Roberts offered to go and see.
56.18.9 Need for notices that children play in Pandy Tudur especially as additional traffic travels through the village to the Old Vicarage. RESOLVED the Clerk to care for signs and spend no more than £ 100.
56.18.10 Need some attention to park in Pandy Tudur - fence broken, holes in the ground and need a higher fence to stop balls going over to the field.

56.19 BILLS
One Voice Wales (One Voice Wales Conference) £ 80
D Evans (4th cut to cemeteries) £ 360
Computer World (computer repair) £ 40
Clerk Salary and Costs £ 892.69
Inland Revenue (PAYE) £ 6.00

The meeting came to an end at 11 o'clock in the evening.

Approved the Minutes ..G A Jones ...................... Date ... 28/9/16